

Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Y Felinheli a gynhaliwyd ar yr 8fed Mawrth, 2011, yng Nghapel Bethania, Y Felinheli
Minutes of the meeting of Felinheli Community Council held on 8th March, 2011 at Bethania Chapel, Y Felinheli

Yn Bresennol/Present: Ken R. Brown (Cadeirydd) Daniel Williams (Is-gadeirydd)
Lena Ashley; Pat Jones;
Eluned Owen; George Smith;

1) Sylwadau Agoriadol/Opening Remarks:

Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r Cynghorwyr.

The Chairman extended a welcome to the Councillors.

2) **Ymddiheuriadau/Apologies** Sian Gwenllian; Iestyn Harris
Gerald Roberts; Pat White.

3) **Datgan Diddordeb / Declaration of Interest** – Dim / None

4) Cofnodion/Minutes:

Derbyniwyd a chadarnhawyd cofnodion cyfarfodydd 11eg Ionawr, 8fed Chwefror a 15fed Chwefror.

Minutes of the meetings held on 11th January, 8th February and 15 February were accepted and confirmed.

Materion I'w Trafod/Matters for Discussion:

- i) **Gwefan Cymunedol –36026 ymweliadau yn ystod mis Ionawr.**
Community Web Site – 36026 hits during the month of January
- ii) **Prydles Lan y Mor – yn dilyn penderfyniad y Cyngor ar yr 8fed Chwefror i'r Clerc ymholi a Swyddog Morwrol Cyngor Gwynedd, ynglŷn â chynlluniau ar gyfer y rhan yma o'r Lan y Môr, a'i ymateb, penderfynwyd nad oedd pwrpas mewn cadw'r Brydles a'i rhoi i fyny fel bod Cyngor Gwynedd yn ei chymered drosodd.**

Lease Beach Area – following the decision of the Council on 8th February for the Clerk to enquire of the Maritime Officer, Gwynedd Council, as to what future plans they may have in relation to this part of the beach area and to his response, it was decided to surrender the Lease in order to allow Gwynedd Council to take it over.

5) **Adroddiad Pwyllgor Rheoli'r Neuadd / Hall Management Committee Report**

Adroddwyd yn fyr iawn ar gyfarfod o'r Pwyllgor Rheoli a dosbarthwyd copi o'r cofnodion i bawb. Mae rhai materion diffygiol wedi eu tynnu i sylw'r Pensaer a materion eraill eisioes wedi cael sylw. Pwysleisiodd Cyng. Eluned Owen bod angen

symud ymlaen i glirio'r ystafell bwyllgor fel bod cyfarfodydd o'r Cyngor Cymuned yn cael ei cynnal yn y Neuadd. Gweithred: Cyng. Daniel Williams i drefnu. Cyfeiriwyd at lythyr e-bost a dderbyniwyd yn tynnu sylw nad oedd biniau na drychau yn y toiledau, na offer ar gyfer newid clytiau plant. Gweithred: Clerc i'w harchebu yn ogystal ag offer ffram 'V' i hwyluso glanhau'r llawr.

A short report was received and the minutes of the last meeting of the Hall Management Committee had been circulated to all. Some defective items had been reported to the Architect and previous matters had been attended to. Cllr Eluned Owen emphasised the need to clear the meeting room in order that future meetings of the Community Council can be held at the Hall. Action: Cllr. Daniel Williams to organise. An e-mail letter was referred to drawing attention to the lack of bins and mirrors in the toilets and also baby changing facilities. Action: Clerk to order and to obtain a 'V' frame floor cleaner.

6) Cadarnhau Gwariant y mis blaenorol ac Adroddiad Ariannol/Confirm Payments for the Previous Month and Financial Report:

Cadarnhawyd dreflen o wariant y Cyngor am fis Chwefror.

A summary of payments during the month of January was confirmed.

7) Gohebiaeth/Correspondence:

1) Gorchymyn Gwaharddiad a Chyfyngiad Aros Y Felinheli - Adroddodd y Clerc ei fod eisoes wedi sylwi gwall ar y Gorchymyn ac wedi cysylltu â Chyngor Gwynedd i adolygu'r Archeb.

Prohibition and Restriction of Waiting Y Felinheli Order – The Clerk reported that he had already noted an error and had contacted Gwynedd Council to review the Order.

2) Diwygiadau drafft i Ganllawiau Cynllunio Atodol cyfredol a Canllaw Cynllunio Atodol Drafft; Llety Ymwelwyr – Chwefror 2011 - Nodwyd
Draft Amendments to existing Supplementary Planning Guidance and Draft Supplementary Planning Guidance; Holiday Accommodation – February 2011.
Noted.

3) Adroddiad Blyneddol Pwyllgor Safonau Cyngor Gwynedd - Nodwyd
Gwynedd Council Standards Committee's Annual Report - Noted

8) Adroddiad Is-Bwyllgor Cofeb y Cloc/Memorial Clock: -

Gwlybanaeth – Cyng. Daniel Williams i gyfarfod a'r Pensaer i geisio datrys y broblem.

Water Seepage Problem – Cllr Daniel Williams to meet with the Architect to try and resolve the problem

9) Ceisiadau Cynllunio/Planning Applications:

Dim ceisiadau / No applications

10) Adroddiad Is Bwyllgor y Fynwent/ Report of the Cemetery Sub-Committee

Adroddwyd bod cŵyn wedi ei dderbyn fod bin y Fynwent yn ogystal a bin yr Eglwys yn gorlifo a ddim wedi ei wagio gan Gyngor Gwynedd. Gweithred: Clerc i ymholi.

Reported that a complaint had been received regarding the over-fill of the bin at the cemetery and the bin at the Church Cemetery, neither of which had been collected by Gwynedd Council. Action: Clerk to enquire.

11) Adroddiad Is Bwyllgor Maes Parcio/Lon Las/ Report of the Car Park/Lon Las Sub Committee

Ac eithr bod Lon Las yn edrych yn dda ar ôl gwaith ail wynebu nid oedd unrhyw beth arall i'w adrodd.

With the exception that Lon Las looks good after resurfacing work, there was no other matter to report.

12) Adroddiad Is Bwyllgor Llwybrau Cyhoeddus/Cysgodfannau/Meinciau Report of Public Footpaths/Shelters/Benches Sub Committee

Llwybrau – Adroddwyd bod rhai o'r llwybrau wedi eu gosod ar loeren ac mae camau i lawr lwytho lluniau yn dangos manau hanesyddol y cylch deithiau ar droed. Mae Graham Fitch a Mark Balaam wedi cyfarfod a disgwyliad adroddiad cyn bo hir.

Taflen - Cyflwynodd y Clerc ymddiheuriad Dafydd Einion am yr oedi a'i fwriad i gynnal cyfarfod yn y dyfodol agos.

Footpaths – reported that some of the footpaths had now been downloaded onto the satellite navigation system and steps are being taken to download photographs showing locations of historic interest along the circular routes. Graham Fitch and Mark Balaam have met and their report is awaited.

Pamphlet – The Clerk extended Dafydd Einion's apologies for the delay and his intention to call a meeting soon.

13) Sedd Wag ar y Cyngor / Vacant Seat on the Council

Yn dilyn hysbyseb am Gyngorydd ar y Cyngor, daeth dau gais i law. Yn y cyfamsr bu sedd ychwanegol ar gael ac felly penderfynwyd gwahodd y ddau ymgeisydd i ymuno a'r Cyngor yng Nghyfarfod nesaf o'r Cyngor ar Ebrill 12.

Following an advert for a Councillor, two applications were received. In the intervening time, a further vacancy arose and it was decided that the two applicants be invited to attend the next meeting of the Council on April 12th.

14) Adroddiad y Cynghorydd Sir/Report of County Councillor

- 1) **Parcio** – mae nifer cynyddol yn parcio ar y llinellau melyn yng nghanol y pentre a ger Tai Terfyn. Mae hyn yn beryglus ac mae'r heddlu yn galw i'r pentref i gosbi'r troseddwy. Mae hyn yn golygu fod rhai sy'n parcio'n rhy hir ble mae cyfyngu ar amser parcio hefyd yn cael eu dal. Mae'r Cyngor Cymuned yn dal i ddisgwyl i Gyngor Gwynedd newid y cyfyngiad i ddwy awr a dim cyfyngiad ar Sadwrn a Sul yn y bocs parcio hir ar ran o Stryd Bangor (o flaen rhif 51 – 14). Mae hyn yn y broses o'i gwblhau ac mae'r Cynghorydd Sir wedi gofyn i'r Cyngor unwaith eto i symud ymlaen efo hyn.
- 2) **Baw Cwn** – mae'r Cynghorydd Sir yn gweithio gyda phlant yr Ysgol ac mae'r Cyngor Sir am wneud posteri o waith y plant.
- 3) **Lon Las** – mae'r gwaith gwella yn mynd yn ei flaen rhwng Pen y Bryn a Seilo.
- 4) **Llwybr Cerrig yr Afon** – mae'r gwaith gwella yn symud mlaen yma hefyd. Mae'r cynlluniau i'w gweld yn y Felin Sgwrsio.
- 5) **Ffordd Osgoi Bontnewydd/Caernarfon** : Cynllun gan y Cynulliad yw hwn ac fe ofynnwyd i'r Cyngor Sir am eu barn. Mae Gwasanaeth Trafnidiaeth Cyngor Gwynedd yn ffafrio'r Llwybr Porffor sydd yn fforchio ffordd o ffordd osgoi bresennol Y Felinheli drwy gaeau Carreg Coch a draw i Cibyn. Ni fydd effaith ar y ffordd gefn rhwng Felinheli a Bethel yn ol y swyddogion.
- 6) **Bu gweithwyr y Cyngor yn clirio sbwriel o'r llwybr cyswllt rhwng y Wern a Tai Gwelfor.**
- 7) **Llongyfarchiadau i'r Ysgol am eu gorymdaith Wyl Ddewi drwy'r pentref a gobeithio y bydd yn parhau i'r dyfodol.**
- 8) **Llongyfarchiadau hefyd i Ifan Emyr o'r pentre am gyrraedd rownd olaf Can I Gymru eleni gan ddod a'r pentref i sylw'r genedl.**
- 9) **Fel Arweinydd Cyllid y Cyngor bu'r Cynghorydd Sir yn arwain y drafodaeth yn y Cyngor ar sut i leihau'r bwlch ariannol sy'n wynebu'r Cyngor yn sgil toriadau ariannol Llywodraeth Prydain. Penderfynwyd codi lefel y dreth cyngor i 3.9%)llai na 74c yn wythnos i ran fwyaf o drethdalwyr) gan fod hyn yn tynnu £2M oddi ar y cyfanswm toriadau sydd eu hangen. Mae'r Cyngor yn ceisio amddiffyn gwasanaethau rheng-flaen cyn gymaint a phosib.**
- 10) **Fel Arweinydd Cyllid mae'r Cynghorydd Sir wedi sierhau Cronfa o £300,000 ar gyfer ysgolion fel Y Felinheli sy'n wynebu problemau ariannol a chynnydd mewn maint dosbarthiadau. Mae Ysgol Y Felinheli yn wynebu toriad mewn cyllideb ynghyd a 70 o ysgolion eraill ond mae 30 o ysgolion lleiaf y sir yn rhydd o doriadau ac hefyd yn derbyn sybsidi.**
- 11) **Mae rhaglen lawn o weithgareddau yn Y Felin Sgwrsio eto mis Mawrth ac Ebrill.**
- 12) **Diolch i Len Williams am drefnu'r arddangosfa hen luniau yn y Neuadd ar Mawrth 24,25 a 26. Bydd cyfle i rhai sydd heb fod yn y Neuadd i weld y cyfleusterau gwych. Fe fydd yr elw yn mynd at elusen Ty Gobaith.**
- 13) **Cynllunio Ymlaen** – Mae'r Cynghorydd Sir yn awyddus i gasglu barn am pa gynlluniau yr hoffech i eu gweld yn y pentref dros y blynyddoedd nesaf.
- 14) **Hen Glwb Y Felin** – mae'r gwaith dymchwel wedi cychwyn ac mae'r Cynghorydd Sir mewn cysylltiad a chynrychiolydd preswylwyr Pendorlan sy'n poeni am fynediad at gefnai eu tai.
- 15) **Diolch i bawb aeth i bleidleisio yn y Refferendwm. Yn ol y samplau a gymerwyd, roedd mwyafrif mawr o blaid mwy o bwerau i'r Cynulliad. Bydd yn ddiddorol gweld sut fydd y pleidiau gwleidyddol am ddefnyddio'r bwerau i wella bywydau pobl Cymru.**

- 1) Parking - a growing number are parking on the yellow lines in the village and near Terfyn Terrace. This is dangerous and the police call in the village and punish the offenders. This means that those who park too long where there is limited waiting are also being caught. The Community Council is still waiting for Gwynedd Council to change the restriction to two hours and no limit on Saturday and Sunday on that part of Bangor Street (in front of numbers 51 to 14). This is in the process of being completed and the County Councillor has requested the Council to once again move forward with this.
- 2) Dog Fouling – the County Councillor is working with school children and the County Council are making posters of the children's work.
- 3) Lon Las - the improvement work is in progress between Pen y Bryn and Seilo.
- 4) Cerrig yr Afon Footpath – the improvement work is in progress. The plans can be seen at Y Felin Sgwrsio.
- 5) Bontnewydd/Caernarfon by-pass - This is a Welsh Assembly Scheme and the County Council have been asked for its views. Gwynedd Council's Transport Services favour the Purple Route that forks from the existing Y Felinheli by-pass, through Carreg Coch fields towards Cibyn. According to officials, the back road between Y Felinheli and Bethel will not be affected.
- 6) Council workers have been clearing rubbish from the footpath connecting Y Wern and Sea View Terrace.
- 7) Congratulations to the School for their St David's Day march through the village and hopefully will continue into the future.
- 8) Congratulations also to Ifan Emyr from the village on reaching the finals of this year's Song for Wales bringing the village to the attention of the nation.
- 9) As the Finance Leader of the Council, the County Councillor has been leading the discussion at the Council on how to reduce the financial gap facing the Council due to the British Government's funding cuts. It has been decided to raise the level of Council Tax to 3.9% (less than 74p per week for most taxpayers) and this has reduced the total cuts required by £2M. The Council seeks to protect front-line services as much as possible.
- 10) The County Councillor, as the Portfolio Holder for Finance, has secured £300,000 for schools like Y Felinheli who face financial problems together with an increase in class size. Y Felinheli School faces this cut in budget along with 70 other schools but 30 of the county's smallest schools are free from cuts and also receive a subsidy.
- 11) A full programme of activities will be held at Y Felin Sgwrsio in March and April.
- 12) Thanks to Len Williams for organising an exhibition of old photographs in the Hall on March 24, 25 and 26. This is an opportunity for those who have not yet been to the Hall to view the fantastic facilities. The proceeds will be donated to Hope House.
- 13) Forward Planning - The County Councillor is keen to gather views on what plans you would like to see in the village over the next few years.
- 14) Clwb y Felin - the demolition work has started and the County Councillor is in contact with a representative of Pendorlan residents who are concerned about access to the rear of their houses.
- 15) Thanks to everyone that went to vote in the Referendum. According to the samples taken, a large majority are in favour of more powers to the Assembly. It will be interesting to see how the political parties want to use the powers to improve the lives of people of Wales.

16) **15) Unrhyw Fater Arall / Any Other Matter**

Casglu Gwastraff - cwyn wedi ei dderbyn nad yw'r gwasanaeth yn dod i'r safon ddisgwyliid. Sbwriel yn cael ei adael ar ôl a'r biniau ddim yn cael eu dychwelyd i'r safle iawn. Ymddengys bod y gweithwyr ar ormod o frys i wneud y gwaith yn iawn.
Gweithred: Clerc i gysylltu â'r Adran

Bin Collection in the village - complaint received that the service is not up to the standard expected. Rubbish is being left behind and the wheelie bins are not returned to their proper location. It would appear that the collectors are in too much of a hurry to do the job properly.
Action : Clerk to contact the Department.

Dim materion eraill i'w trafod a daeth y cyfarfod i ben am 8.20..
No other matters to discuss and the meeting finished at 8.20.p.m.

Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Y Felinheli a ohirwyd or 8fed Chwefror hyd at Chwefror 15 yng Nghapel Bethania, Y Felinheli.

Minutes of the adjourned meeting of Y Felinheli Community Council from the 8th to the 15th February at Bethania Chapel, Y Felinheli.

Presennol / Present: Ken Brown (Cadeirydd/Chairman)
Daniel Williams (is-gadeirydd / Vice Chairman)
Cynghorwyr/Councillors Lena Ashley; Sian Gwenllian; Iestyn Harris;
Pat Jones; Gerald Roberts; George Smith;
Pat White.

Ymddiheuriadau / Apologies Cllr Eluned Owen

1) yn dilyn eitem 7 ar Agenda cyfarfod o'r Cyngor ar yr 8fed Chwefror pan benderfynwyd gohirio'r eitem am wythnos i'w trafod ar y 15fed Chwefror.

Following item 7 on the Agenda for the meeting of the Council on 8th February when it was decided to adjourn the item for one week to be discussed on 15th February.

Ystyried Ceisiadau am gymorth ariannol / Consider requests for financial assistance

Sylwadau Arweiniol / Opening Remarks

Eglurwyd bod llawer cais wedi ei dderbyn oddiwrth amrywiaeth o wasanaethau a chymdeithasau oddimewn a thu allan i gylch lleol Y Felinheli.

Explained that many applications had been received from organisations and services both within and outside the locality of Y Felinheli.

PENDERFYNWYD – Ystyried ceisiadau oddimewn cylch lleol Y Felinheli yn union fel mae'r polisi wedi bod yn y gorffennol.

DECIDED – Consider applications within the locality of Y Felinheli in accordance with past policy.

Wedi trafod pob cais yn unigol penderfynwyd rhannu arian fel a ganlyn:

After considering each single application it was decided to share the money as follows:

- £200 - Y Goriad - tuag at gostau argraffu.
- £150 - Clwb y Felin (Henoed) tuag at gostau'r Clwb
- £500 - Gwyl y Felin tuag at gynnal yr Ŵyl
- £400 - Cyfeillion yr Ysgol tuag at brosiect o osod cysgodfa ar gyfer yr adran iau.
- £200 - Cylch Meithrin Y Felinheli tuag at adnoddau newydd i'r Cylch
- £400 - Clwb Peldroed Y Felinheli tuag at wariant ar y cantin a'r ystorfa
- £ 50 - Felinheli Rainbows tuag at gemau ac offer ar gyfer genethod 5 – 7 oed
- £100 - 3rd Portdinorwic Guides tuag at offer ar gyfer coginio a thent newydd
- £100 - Brownies tuag at brynu nwyddau, offer a rhentu caban yn y Felin Fach
- £500 - Clwb Pêl-droed Ieuenctid i brynu offer y ogystal â chostau llogi neuaddau ar gyfer ymarferion
- £150 - Pwyllgor Regatta tuag at cynnal y Regatta yn 2011

Yn ogystal a'r uchod mae'r Cyngor yn ol eu Rheolau Sefydlog yn rhoi £500 yn flynyddol i Eglwys Santes Fair Llanfairisgaer ar gyfer cynnal a chadw Mynwent yr Eglwys.

In addition to the above, the Council, in accordance with their Standing Orders, donate the sum of £500 to St Mary's Church, Llanfairisgaer towards the repair and maintenance of the Church cemetery.

Cae Aml Bwrpas - Mae'r Cyngor wedi ystyried ceisio grantiau ar gyfer lleoli cae aml bwrpas yn ardal Pennington's, Lon Las fydd yn fantais ac yn adnodd gwerthfawr i'r pentref. Ar hyn o bryd, nid yw'r Cyngor mewn sefyllfa i fwrw mlaen gyda'r prosiect ond naturiol yn cefnogi'r prosiect.

Derbyniwyd cais oddiwrth Mr Emyr Roberts, Cadeirydd Clwb Pêl-droed Y Felinheli yn amlinellu eu gobaith gyda'r prosiect. Mae cais cynllunio eisioes wedi ei ganiatau ac mae angen arian i gychwyn y brosiect. Bydd grant o £1000 yn gyfateb i amcan bris cwmni Wakemans ar gyfer prisio'r prif waith ac mae Cyngor Gwynedd a Chynllun Môn a Menai wedi ymateb yn bositif iawn hyd yma i ariannu'r prosiect. Y cam cyntaf fydd gwaith prisio'r ac fe fyddai cael arian ar gyfer y gwaith hwnnw yn help mawr l annog y brosiect yn ei flaen.

Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd yn unfrydol cyfrannu swm o £1000 er mwyn cychwyn y gwaith prisio ac er mwyn i'r prosiect cyffrous newydd yma gael ei wireddu.

Multi-purpose all weather pitch - The Council have considered applying for grants to establish a multi-purpose allweather playing area in the Pennington Area that would prove to be a worthwhile benefit to the village. At present, the Community Council are unable to proceed with the project but obviously support the project.

An application had been received from Mr Emyr Roberts, Chairman of the Felinheli Football Club, outlining their hopes for the project. Planning application has already been granted, but money is needed to start the project. A grant of £1000 would meet

the estimate from Wakeman's for pricing the main works and Gwynedd Council and the Mon Menai Plan have responded positively so far to finance the project. The first step is to have the major works costed and to receive a grant towards that work will be of great assistance to promote the project.

Following a discussion, it was unanimously agreed that the sum £1000 be donated by way of a grant to commence the costing work and for this new exciting project to materialise.

Cadeirydd / Chairman

8fed Mawrth 2011
8th March 2011